



CORONAFEIRWS (COVID-19): DIWEDDARIAD WYTHNOSOL I DDARPARWYR GOFAL

CORONAVIRUS (COVID-19): WEEKLY UPDATE FOR CARE PROVIDERS

22 Ebrill /
22 April

Mae Darparwyr Gofal Cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn a gofalu am y dinasyddion sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau. Mae'r rhain yn amseroedd heriol ac mae arweinyddiaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwerthfawrogi popeth rydych chi'n ei wneud i gadw pobl yn ddiogel.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r cyngor diweddaraf gan [lechyd Cyhoeddus Cymru \(PHW\)](#) a [Llywodraeth Cymru](#).

Nod y briff hwn yw rhoi gwybod i ddarparwyr am y diweddariadau diweddaraf, darparu cyngor ac ymateb i ymholiadau cyffredinol.

Gellir gweld y bwletin hwn a bwletinau blaenorol hefyd ar wefan [ADSS Cymru](#)

Social Care Providers are playing a critical role in protecting and caring for the most at-risk citizens in our communities. These are challenging times and the leadership of social care in Wales really appreciates everything you are doing to keep people safe.

This document should be read in conjunction with the most recent advice from [Public Health Wales \(PHW\)](#) and [Welsh Government](#).

The aim of this briefing is to keep providers informed of the latest updates, provide advice and respond to general enquiries.

This bulletin and previous bulletins can also be found on the [ADSS Cymru website](#)

Pwnc	Manylion	Dolen
Newyddion a Datganiadau Llywodraeth Cymru	Adolygiad o'r profion ar gyfer COVID-19	https://llyw.cymru/adolygiad-or-profion-ar-gyfer-covid-19
1. Profi	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Iechyd, o'r drefn brofi er mwyn gweld ble gellid ac y dylid gwneud gwelliannau. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar dair elfen allweddol – capasiti profi, mynediad at brofi a'r broses cyfeirio am brofion a'r canlyniadau. Mae'n nodi nifer o argymhellion, gan gynnwys datrysiadau technoleg, cefnogaeth gan gynlluniau	Datganiad: https://gov.wales/technology-and-military-part-plans-increase-testing-critical-

Topic	Detail	Link
Welsh Government News and Statements	Review of testing for COVID-19	https://gov.wales/review-testing-covid-19
1. Testing	Welsh Government has published a review, commissioned by the Health Minister, of the testing regime to identify where improvements could and should be made. The review focuses on three key elements – testing capacity, access to testing, the testing referral and results process.	Statement: https://gov.wales/technology-and-military-part-plans-increase-



	<p>milwrol a chael gwared ar y cap ar atgyfeiriadau gweithwyr cymdeithasol er mwyn cyflymu'r system.</p> <p>Cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething, argymhellion mewn datganiad a gyhoeddwyd ar 19 Ebrill</p> <p>Polisi profi gweithwyr (hanfodol) allweddol coronafeirws (COVID-19)</p> <p>Mae polisi ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wedi'i gyhoeddi. Mae'n amlinellu meini prawf profi trwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer (gweithwyr allweddol) y GIG a gweithwyr nad ydynt yn y GIG.</p>	<p>workers-wales (a dewiswch yr opsiwn Cymraeg)</p> <p>https://gov.wales/les/key-critical-workers-testing-policy-coronavirus-covid-19 (a dewiswch yr opsiwn Cymraeg)</p>		<p>It identifies a number of recommendations, including technology solutions, military planning support and removing the cap on social worker referrals to speed up the system.</p> <p>The Health Minister, Vaughan Gething, approved recommendations in a statement released on 19 April</p> <p>Key (critical) workers testing policy: coronavirus (COVID-19)</p> <p>A policy for health and social care professionals has been issued. It sets out a needs-based approach testing criteria for NHS and non-NHS (key workers).</p>	<p>testing-critical-workers-wales</p> <p>https://gov.wales/les/key-critical-workers-testing-policy-coronavirus-covid-19</p>
<p>2. Munud o dawelwch i gofio pob gweithiwr allweddol</p>	<p>Bydd munud o dawelwch ddydd Mawrth 28 Ebrill am 11am i anrhydeddu'r gweithwyr allweddol sydd wedi colli eu bywydau oherwydd y coronafeirws.</p>	<p>RCN leads call for minutes silence</p>	<p>2. Minute silence to remember all key workers</p>	<p>A minute silence will be taking place on Tuesday 28th April at 11am to honour the key workers who have lost their lives to coronavirus.</p>	<p>RCN leads call for minutes silence</p>
<p>3. £40m yn ychwanegol i gefnogi gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru</p>	<p>Mae'r arian hwn i helpu i sicrhau y gall awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r costau ychwanegol sy'n deillio o Covid-19 y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn eu hwynebu. Bydd hyn yn cynnwys darparwyr gwariant ychwanegol sy'n mynd i gostau uwchlaw'r hyn a gomisiynir fel arfer ar eitemau fel mwy o staff asiantaeth neu fwy o reolaeth hylendid.</p>	<p>https://llyw.cymru/ps40m-ychwanegol-i-gefnogi-gofal-cymdeithasol-i-oedolion-yng-nghymru</p>	<p>3. Extra £40m to support adult social care in Wales</p>	<p>This funding is to help ensure local authorities can address the additional costs resulting from Covid-19 that adult social care providers are experiencing. This will include additional expenditure providers that are incurring above that normally commissioned on items such as increased agency staff or greater hygiene control.</p>	<p>https://gov.wales/extra-ps40m-support-adult-social-care-wales</p>



	<p>Yn ystod y diwrnodau diwethaf gofynnwyd inni a fydd y gronfa hefyd yn cyflenwi ar gyfer colli incwm o ofal a gomisiynir – rydym yn ystyried hyn a byddwn yn darparu eglurder yn fuan. Mae wedi'i neilltuo ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ac mae wedi'i gynnwys yng Nghronfa Galedi Llywodraeth Leol Covid-19 a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd yn helpu i sicrhau bod darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn gallu cynnal eu darpariaeth gofal ac yn gallu ymateb i unrhyw alw ychwanegol am ofal sy'n codi. Bydd y dyraniad hwn yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau ei fod yn gallu gwneud hyn o hyd.</p> <p>Bydd rhagor o fanylion ar gael yn nes ymlaen yr wythnos hon. Yn y cyfamser, os yw darparwyr gofal i oedolion yn wynebu costau o'r fath, dylent drafod hyn gyda'r awdurdod lleol sy'n comisiynu. Er bod y cyhoeddiad hwn yn ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r sefyllfa o ran gofal plant hefyd yn cael ei monitro hefyd.</p>			<p>In recent days we have been asked whether the fund will also provide cover for lost income from commissioned care – Welsh Government is considering this and will provide clarity shortly. It is ring-fenced for adult social care and included in the Covid-19 Local Government Hardship Fund established recently. It is to help ensure adult social care providers can maintain their care provision and be able to respond to any additional demand for care which arises. This allocation will be closely monitored to ensure it remains able to do this.</p> <p>Further details will be available later this week. In the meantime should adult care providers being experiencing such costs they should discuss this with their commissioning local authority. Whilst this announcement is about adult social care, the situation in children's care is also be monitored.</p>	
<p>4. Canllawiau Gweihredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Blant, COVID 19 (Ebrill 2020)</p>	<p>Mae canllawiau gweithredol ar ddarparu Gofal Cymdeithasol i Blant wedi cael eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n ymwneud â diogelu plant. Bydd y canllawiau hyn yn helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i barhau i ddarparu cymorth effeithiol i blant sy'n agored i niwed, plant sydd mewn perygl a phlant sy'n destun gofal, gan gynnal eu dyletswyddau statudol yn ystod pandemig y coronafeirws yr un pryd.</p>	<p>Dolen Saesneg yn unig:</p> <p>https://gov.wales/childrens-social-services-during-covid-19</p>	<p>4. Welsh Government Operational Guidance for Children's Social Care COVID 19 (April 2020)</p>	<p>Operational guidance on the delivery of Children's Social Care has been prepared by the Welsh Government for local authorities and partners involved in safeguarding children.</p> <p>This guidance will help local authorities and partners continue to provide effective support to vulnerable, at risk and care</p>	<p>https://gov.wales/childrens-social-services-during-covid-19-pandemic-guidance</p>



	Mae'r canllawiau'n nodi'r mesurau y dylid eu rhoi ar waith er mwyn cadw effaith y pandemig i'r lleiaf, a hynny ar adeg pan fo'r adnoddau sydd ar gael i ymdopi â beichiau ychwanegol yn cael eu lleihau.	19-pandemic-guidance (Cyhoeddir y canllawiau yn Gymraeg ar 22 Ebrill 2020)		experienced children, whilst maintaining their statutory duties during the coronavirus outbreak. The guidance sets out the measures that should be put in place to minimise the impact of the pandemic, during a time when resources available to cope with additional burdens are reduced.	
5. Plant a phobl ifanc agored i niwed: y coronafeirws	Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu gwybodaeth am blant sy'n agored i niwed a diogelu yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae'n rhoi atebion i Gwestiynau Cyffredin ac efallai y bydd o ddi-ddordeb i unrhyw un sy'n gweithio yn y maes hwn neu sy'n ymwneud â'r materion a godwyd. Oherwydd natur ddatblygol y pandemig ac ymatebion mae'r dudalen we yn parhau i gael ei diweddarau.	https://llyw.cymru/plant-agored-i-niwed-diogelu-y-coronafeirws		5. Vulnerable children and young people: coronavirus The Welsh Government has produced information about vulnerable children and safeguarding during the coronavirus pandemic. It provides answers to Frequently Asked Questions and may be of interest to anyone who works in this area or is concerned with the issues raised. Due to the evolving nature of the pandemic and responses the webpage is continuing to be updated.	https://gov.wales/vulnerable-children-and-young-people-coronavirus
6. Canllawiau i awdurdodau lleol a darparwyr mewn lleoliadau llety â chymorth: y coronafeirws (COVID-19)	Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau sy'n nodi sut y dylai awdurdodau lleol a darparwyr llety â chymorth reoli eu lleoliadau yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae'n nodi'r angen am fesurau ymarferol i sicrhau bod gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn lleoliadau llety â chymorth y gefnogaeth, yr adnoddau a'r polisïau y mae eu hangen i'w diogelu eu hunain. Eu bod hefyd yn gallu defnyddio'r cyfleusterau i'w galluogi i gadw at ganllawiau iechyd y cyhoedd ar hylendid ac ynysu a mesurau i liniaru'r risg o haint mewn lleoliadau llety â chymorth.	https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-a-darparwyr-mewn-lleoliadau-llety-a-chymorth		6. Guidance for local authorities and providers in supported accommodation settings: coronavirus (COVID-19) The Welsh Government has produced guidance setting out how local authorities and providers of supported accommodation should manage their settings during the corona virus outbreak. It sets out the need for practical measures to ensure those living and working in supported accommodation settings have the support, resources and policies needed to protect themselves. That they also have access to the facilities to enable adherence to public health guidance on hygiene and isolation and measures to mitigate the risk	https://gov.wales/coronavirus-covid-19-guidance-local-authorities-and-providers-supported-accommodation



	Yn ogystal, mae'n tanlinellu'r angen i ystyried cadernid meddyliol a chorfforol pobl mewn lleoliadau llety â chymorth.			of infection within supported accommodation settings.	
7. Coronafeirws (COVID-19): canllawiau i denantiaid yn y sector rhentu preifat	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu gwybodaeth am Covid-19 a'r hyn y mae angen i denantiaid yn y sector rhentu preifat ei wneud.</p> <p>Mae cyngor ategol yn tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa hon yn datblygu'n gyflym. Darllenwch GOV.UK am gyhoeddiadau.</p>	<p>https://llyw.cymru/canllawiau-i-denantiaid-yn-y-sector-rhentu-preifat-coronafeirws-covid-19</p>		<p>In addition, it highlights the need for the mental and physical resilience of people in supported accommodation settings to be considered.</p> <p>The Welsh Government has produced information about Covid-19 and what tenants in the private rented sector need to do.</p> <p>Covering advice highlights that this situation is rapidly evolving. Please check GOV.UK for announcements.</p>	<p>https://gov.wales/guidance-tenants-private-rented-sector-coronavirus-covid-19</p>
8. Cronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymateb y Trydydd Sector i COVID-19	<p>Ar 27 Mawrth cytunodd Llywodraeth Cymru ar becyn cymorth gwerth £24 miliwn ar gyfer y trydydd sector. Bydd y Gronfa Gymorth ar gyfer Ymateb y Trydydd Sector i COVID-19 yn cefnogi'r trydydd sector drwy'r achosion o coronafeirws.</p> <p>Mae help a chymorth ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol i'w cael drwy wefan Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae cymorth ar gael hefyd o wefan CGGC, neu yn fwy lleol, o aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru.</p> <p>Mae cyngor cyllid i'w gael hefyd ar borthol ar-lein Cyllido Cymru</p>	<p>datganiad am gefnogaeth</p> <p>https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector</p> <p>WCVA (cy)</p> <p>Third Sector Support (Cy)</p> <p>Cyllido Cymru</p>		<p>8. The Welsh Government Third Sector Covid-19 Response Fund</p> <p>On 27 March the Welsh Government agreed a package of support worth £24 million for the third sector. The Welsh Government Third Sector Covid-19 Response Fund will support the third sector through the coronavirus outbreak.</p> <p>Help and support for third sector organisations and community groups can be accessed through the Welsh Government website.</p> <p>Support is also available on the WCVA's website, or more locally from Third Sector Support Wales' members.</p>	<p>statement on support</p> <p>https://gov.wales/coronavirus-covid-19-support-for-the-third-sector-html</p> <p>WCVA (Eng)</p> <p>Third Sector Support (Eng)</p> <p>Funding Wales</p>



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

					Funding advice is also available on the Funding Wales online portal.	
9. Comisiynydd Plant Cymru – Hwb gwybodaeth coronafeirws	Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi datblygu hwb gwybodaeth coronafeirws i blant, pobl ifanc, a theuluoedd yng Nghymru.	https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws/		9. Children’s Commissioner for Wales – Coronavirus Information Hub	The Children’s Commissioner for Wales has developed a coronavirus information hub for children, young people, and families in Wales.	https://www.hildcomwales.org.uk/coronavirus/
10. Voices for Care Cymru – Cymorth ar gyfer pobl ifanc sy’n cael profiad o ofalu yng Nghymru	Mae Voices for Care Cymru yn cefnogi’r gymuned sy’n cael profiad o ofalu yng Nghymru yn darparu ffynonellau defnyddiol o gymorth a chefnogaeth mewn perthynas â’r coronafeirws Maen nhw hefyd yn darparu cynnig sy’n agored i unrhyw blentyn neu berson ifanc sy’n cael profiad o ofalu, o oed ysgol gynradd i unigolion sy’n gadael gofal hyd at 25 oed.	http://vfcc.org.uk/coronaviruses/ http://vfcc.org.uk/wp-content/uploads/2020/03/VFCC-Ein-Cynnig-Cymraig.pdf		10. Voices for Care Cymru – Support for care experienced young people in Wales	Voices for Care Cymru who support the care experienced community in Wales are providing sources to useful sources of advice and support regarding the coronavirus. They are also providing an offer open to any care experienced child or young person, from primary school up to care leavers up to 25.	http://vfcc.org.uk/coronaviruses/ http://vfcc.org.uk/wp-content/uploads/2020/03/VFCC-Our-Offer-English-1.pdf
11. Gweminar i gefnogi’r canllawiau Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o’r Ysbyty COVID-19 (Cymru)	Ar 7 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o’r Ysbyty COVID-19 (Cymru). Mae’r canllawiau yn nodi’r Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o’r Ysbyty ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a’r sector annibynnol yng Nghymru a’r camau sy’n rhaid eu cymryd ar unwaith i wella trefniadau rhyddhau o’r ysbyty a’r ddarpariaeth o gymorth cymunedol. Bydd gweminar i gefnogi’r broses o weithredu’r canllawiau, a fydd yn cael ei gynnal gan yr Hwb	www.bit.ly/WG-COVID-Webinar neu https://us02w.zoom.us/j/8iHNbOGc3NK		11. Webinar to support the COVID-19 Hospital Discharge Service Requirements (Wales) Guidance	On April 7 Welsh Government issued the COVID-19 Hospital Discharge Service Requirements (Wales). The guidance sets out the Hospital Discharge Services Requirements for health, social care, third and independent sector partners in Wales and the actions that must be taken immediately to enhance discharge arrangements and the provision of community support.	www.bit.ly/WG-COVID-Webinar or https://us02w.zoom.us/j/8iHNbOGc3NK



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

	<p>Gwyddorau Bywyd ar Zoom, yn cael ei chyflwyno ddydd Gwener 24 Ebrill am 10.00 am.</p> <p>Yn ystod y gweminar, bydd modd ichi anfon negeseuon preifat i'r un fydd yn cynnal y digwyddiad i nodi unrhyw gwestiynau a fydd gennych. Bydd yr holl gwestiynau a dderbynnir yn cael eu hateb yn ddwyieithog mewn dogfen a rennir ar ôl y gweminar drwy'r e-bost. Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir gennym i ddiogelu eich preifatrwydd.</p> <p>I ymuno ar gyfrifiadur personol, Mac, iPad, iPhone neu ddyfais Android, cliciwch ar yr URL hwn i gofrestru eich bod am gymryd rhan.</p> <p>Ar ôl cofrestru, byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau a fydd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer ymuno â'r gweminar.</p>	<p>l7eMnt0lVrkzKeQ</p>		<p>A webinar presentation to support the implementation of the guidance, which will be hosted and supported by the Life Sciences Hub via zoom, will be held on Friday 24 April at 10.00 am.</p> <p>During the webinar, you will be able to private message the event host to log any question you have All questions received will be answered in a bilingual FAQ document to be issued following the webinar via e-mail. Our Privacy Notice explains how we use your information and the ways in which we protect your privacy.</p> <p>To join from a PC, Mac, iPad, iPhone or Android device, please click this URL to register your attendance.</p> <p>After registering, you will receive a confirmation e-mail containing information about joining the webinar.</p>	<p>l7eMnt0lVrkzKeQ</p>
<p>12. Cymorth ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi</p>	<p>Bydd gwasanaeth hawlio ar-lein Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws yn cael ei lansio ar GOV.UK ddydd Llun 20 Ebrill 2020. Bydd unrhyw endid gyda chyflogres y DU yn gallu ymgeisio, gan gynnwys busnesau, elusennau, asiantaethau recriwtio ac awdurdodau cyhoeddus.</p> <p>Llywodraeth Cymru wed cyhoeddi cyfres o datganiadau ynglyn a cymorth i fusnesau yng Nghymru.</p>	<p>Dolen i'r tudalennau ar wefan Busnes Cymru</p> <p>Cyhoeddiad am cronfa cadernid economaidd</p>	<p>12.Support for the Job Retention Scheme</p>	<p>The online claim service for the Coronavirus Job Retention Scheme will be launched on GOV.UK on Monday 20 April 2020. Any entity with a UK payroll can apply, including businesses, charities, recruitment agencies and public authorities.</p> <p>Welsh Govt. have released a series of announcements regarding business support in Wales.</p>	<p>Link to the Business Wales website pages</p> <p>Announcement - economic resilience fund</p>



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

	Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi canllawiau i fusnesau ddarganfod a ydyn nhw'n gymwys i hawlio cyflogau gweithwyr trwy Gynllun Cadw Swydd Coronafeirws	Datganiad Ysgrifenedig (24 Mawrth) Datganiad Ysgrifenedig (19 Mawrth) Cynllun Cadw Swydd Coronafeirws		https://gov.wales/written-statement-response-covid-19-economic-crisis UK Government has also issued guidance for businesses to find out if they're eligible to claim employees' wages through the Coronavirus Job Retention Scheme	Written Statement (24 March) Written statement 19 March Coronavirus job retention scheme
13. Hyfforddiant ar roi meddyginiaet hau i'w gael ar-lein	<p>Mae hyfforddiant cryno newydd ar gael nawr ar roi meddyginiaethau ar wefan Fferylliaeth AaGIC.</p> <p>Cafodd yr hyfforddiant hwn ei gynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal cartref y gallai fod yn ofynnol iddyn nhw roi meddyginiaethau oherwydd y pwysau yn sgil COVID-19, neu sydd eisoes yn rhoi meddyginiaeth o'r pecynnau gwreiddiol yn hytrach na phecynnau 'blister'. Mae rhestr wirio wrth roi meddyginiaethau ar gael hefyd i annog gweithwyr gofal i'w rhoi yn ofalus. Dylai rheolwyr ddefnyddio'r rhestr hon i sicrhau bod unigolion yn gymwys i ymgymryd â'r dasg. Gall fferyllwyr ddarparu taflenni Cofnod o Roi Meddyginiaeth wrth ddsbarthu meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn eu pecynnau gwreiddiol i ysgogi gweithwyr gofal i fabwysiadu arferion cofnodi cadarn.</p>	https://www.wcppe.org.uk/covid-19-medication-administration/	13. Online Medication training available	<p>New short online medication administration training is now available on the HEIW Pharmacy website.</p> <p>This training has been specifically designed for domiciliary care workers who may be asked to administer medication due to the pressures of Covid19, or who are now administering from original packaging rather than blister packs. An administration checklist is also available to prompt safe administration by care workers and should be used by managers to assure themselves of individual competence. Pharmacists are able to issue Medication Administration Records (MAR) sheets when dispensing medication in original packaging to promote robust recording by care workers.</p>	https://www.wcppe.org.uk/covid-19-medication-administration/



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

<p>14. Cymorth i hosbisau</p>	<p>Mae'r Gweinidog ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, wedi cyhoeddi pecyn o gymorth ychwanegol tri mis, gwerth hyd at £6.3 miliwn ar gyfer hosbisau yng Nghymru.</p>	<p>https://llyw.cymru/gweinidog-yn-cyhoeddi-hyd-ps63m-i-hosbisau-yng-nghymru-yn-ystod-covid-19</p>	<p>14. Hospices support</p>	<p>Minister for Health and Social Services, Vaughan Gething, has announced a three-month package of additional support worth up to £6.3 million for hospices in Wales.</p>	<p>https://gov.wales/minister-announces-ps63-million-hospices-wales-during-covid-19-outbreak</p>
<p>15. Hyfforddiant ar gyfer gweithiwr ar ffyrlo</p>	<p>Mae'r Gweinidog ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates wedi cyhoeddi bod adnoddau e-ddysgu newydd, i helpu gweithwyr ar ffyrlo o ganlyniad i'r coronafeirws (COVID-19) i ddysgu sgiliau newydd, bellach yn fyw..</p>	<p>https://llyw.cymru/hyfforddiant-ar-lein-ar-gyfer-y-gweithlu-ar-ffyrlo-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws</p>	<p>15. Training for furloughed workers</p>	<p>New e-learning resources aimed at helping workers furloughed as a result of coronavirus (COVID-19) to learn new skills are now live, Minister for Economy, Transport and North Wales, Ken Skates has announced.</p>	<p>https://gov.wales/online-training-for-furloughed-workforce-during-coronavirus-pandemic</p>
<p>16. Cerdyn parcio a chonsesiynau i weithwyr iechyd, gofal a gwirfoddol</p>	<p>Mae'r pàs hwn yn rhoi tystiolaeth o'r hawl i barcio am ddim i'r rhai sydd ar ddyletswydd fel aelod o staff y GIG, gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol neu wirfoddolwr y GIG, ac mae hyn yn eu galluogi i gael consesiynau parcio mewn meysydd parcio oddi ar y stryd sy'n eiddo i awdurdodau lleol, yn ogystal ag ar y stryd yn ystod y cyfnod ymateb brys i COVID-19.</p> <p>Ceir arweiniad a thelerau ynghylch defnyddio'r pàs parcio a chonsesiynau ar gyfer gweithwyr iechyd, gofal a gwirfoddol COVID-19 ar wefan Llywodraeth Cymru</p>	<p>https://llyw.cymru/cerdyn-parcio-chonsesiynau-i-weithwyr-iechyd-gofal-gwirfoddol</p>	<p>16. Health, care and volunteer workers parking pass and concessions</p>	<p>The pass provides evidence of entitlement to free parking for those on duty as an NHS staff member, health and social care worker or NHS volunteer, enabling them to access parking concessions in local authority-owned off-street car parks, and on-street during the COVID-19 emergency response period.</p> <p>Guidance and terms of use for the parking pass and concessions for COVID-19 health, care and volunteer workers are available on the Welsh Government website</p>	<p>https://gov.wales/health-care-and-volunteer-workers-parking-pass-and-concessions</p>



<p>Tell Us Once – adrodd marwolaeth o COVID-19</p>	<p>Mae gwasanaeth Tell Us Once Llywodraeth y DU yn galluogi dinasyddion i rannu manylion unigolyn sydd wedi marw gydag adrannau perthnasol y Llywodraeth, gan gael gwared ar yr angen i ymgysylltu â phob un ar wahân a darparu nifer o gopïau o'r dystysgrif marwolaeth. Gall Tell Us Once hysbysu nifer o sefydliadau gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol oedolion.</p>	<p>Dolen i wybodaeth am Tell Us Once</p>	<p>Tell Us Once – reporting of Covid-19 deaths</p>	<p>The UK Government's Tell Us Once service allows citizens to share details of the deceased with relevant government departments, removing the need to engage with each one separately and supply numerous copies of the death certificate. Tell Us Once can notify a number of organisations including adult social services.</p>	<p>Link to Tell Us Once information</p>
<p>Y cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol</p>	<p>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cynhyrchu cerdyn i nodi gweithwyr gofal cymdeithasol a chadarnhau eu bod yn weithwyr allweddol wrth ymladd y pandemig presennol. Mae pob gweithiwr gofal cymdeithasol sydd ar y gofrestr yng Nghymru wedi derbyn e-bost yn cynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i lawrlwytho fersiwn ddiigidol o'r cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol. Mae trefniadau hefyd wedi'u gwneud i'r rhain gael eu dosbarthu i weithwyr nad ydynt wedi'u cofrestru trwy reolwyr, yn ogystal â chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid gwasanaethau ac unigolion cyfrifol. Caiff copi caled o'r cerdyn ei bostio o fewn y tair wythnos nesaf.</p> <p>Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru, Sue Evans, lythyr agored i'r archfarchnadoedd i gyd i ofyn iddynt gydnabod y cerdyn yn ffurfiol. Hyd yn hyn, mae Asda, Iceland, The Food Warehouse, M&S, Morrisons a Tesco wedi cytuno i wneud hynny.</p> <p>Cewch hyd i gyfres o gwestiynau cyffredin am y cerdyn, sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, ar ei wefan.</p>	<p>https://gofalcy mdeithasol.cy mru/straeon-newyddion/lly thyr-agored-in-harchfarchnad oedd</p> <p>https://gofalcy mdeithasol.cy mru/gwella-gwasanaethau/cwestiynau-cyffredin-cerdyn-gweithiwr-gofal-cymdeithasol</p>	<p>Social care worker card</p>	<p>Social Care Wales has produced a card to identify social care workers and confirm they are key workers in fighting the current pandemic. Every social care worker on the Register in Wales has been emailed instructions about how to download a digital version of the social care worker card. Arrangements have also been made for these to be distributed to non-registered workers through managers, as well as directors of social services, heads of service and responsible individuals. A hard copy of the card will be mailed out within the next three weeks.</p> <p>Last week, Social Care Wales's Chief Executive Sue Evans issued an open letter to all the supermarkets to ask them to formally recognise the card. So far Asda, Iceland, The Food Warehouse, M&S, Morrisons and Tesco have agreed to do so. You can find a series of FAQs about the card, which are reviewed and updated frequently, on its website.</p>	<p>https://socialcare.wales/new-stories/an-open-letter-to-our-supermarkets</p> <p>https://socialcare.wales/service-improvement/social-care-worker-card-faqs</p>



<p>Tudalennau gwe COVID-19 Gofal Cymdeithasol Cymru</p>	<p>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i ychwanegu gwybodaeth, manylion cyfeirio ac adnoddau i'w dudalennau COVID-19 ar ei wefan. Yn yr wythnos diwethaf, mae wedi ychwanegu arweiniad ar gyfer gweithwyr proffesiynol am drais a cham-drin domestig, cyfarpar diogelu personol (PPE), gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n byw â dementia a chyfathrebu â'r gymuned F/fyddar. Mae hefyd wedi ychwanegu gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein a llesiant, a darparu gwasanaethau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc trwy'r rhyngwyd.</p>	<p>https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gwybodaeth-ac-adnoddau-ich-tywys-trwy-covid-19</p>	<p>Social Care Wales COVID-19 web pages</p>	<p>Social Care Wales is continuing to add information, signposting and resources to the COVID-19 pages on its website. In the last week, it has added guidance for professionals about domestic violence and abuse, personal protective equipment (PPE), dementia and communicating with the D/deaf community. It has also added information about online safety and well-being, and providing safe services for children and young people via the internet.</p>	<p>https://socialcare.wales/service-improvement/information-and-resources-to-guide-you-through-covid-19</p>
<p>Adnoddau Diverse Cymru ar gyfer cymunedau o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig</p>	<p>Mae Diverse Cymru wedi cyhoeddi posteri a thafenni gwybodaeth sydd â chyngor i gymunedau o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o ran aros gartref a gofal dementia yn ystod y pandemig COVID-19.</p>	<p>https://www.diversecymru.org.uk/covid-19-and-bame-communities-resources/</p>	<p>Diverse Cymru resources for BAME communities</p>	<p>Diverse Cymru has published posters and leaflets with advice to BAME communities on staying at home and dementia care during the COVID-19 pandemic.</p>	<p>https://www.diversecymru.org.uk/covid-19-and-bame-communities-resources/</p>
<p>Offeryn Capasiti Gofal a Chymorth ar-lein - atgofiad</p>	<p>Lansiodd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Data Cymru, yr Offeryn Capasiti Gofal a Chefnogaeth ar 26 Mawrth gan alluogi darparwyr cartrefi gofal i ddiweddarau eu niferoedd swyddi gwag yn gyflym. Bydd yr offeryn hwn yn darparu un ffynhonnell wybodaeth werthfawr am gapasiti'r cartref gofal yn ystod yr amser anodd hwn.</p> <p>Ar ôl ei sefydlu'n llawn, dylai hyn leihau'r angen i gomisiynwyr gysylltu â'ch gwasanaeth i gael y wybodaeth hon.</p>	<p>https://www.dewis.cymru/</p> <p>Os oes gennych unrhyw adborth ar yr offeryn, e-bostiwch help@dewis.wales</p>	<p>Online Care & Support Capacity Tool – Reminder</p>	<p>The Welsh Government, in partnership with Data Cymru, launched the Care & Support Capacity Tool on 26 March enabling care home providers to quickly update their vacancy numbers. This tool will provide a valuable single source of information about care home capacity during this difficult time.</p> <p>Once fully established, this should reduce the need for commissioners to contact your service for this information.</p>	<p>www.dewis.wales</p> <p>If you have any feedback on the tool please email help@dewis.wales</p>



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

	<p>Os nad ydych eisoed wedi cofrestru, gwnewch hynny. Gallwch wneud hyn trwy ymweld â https://www.dewis.cymru a nodi'ch manylion. Gallwch gael gafael ar gymorth i ddiweddarau'ch gwybodaeth trwy ffonio 07773 486891 rhwng 8am ac 8pm bob dydd. Gallwch hefyd gael gafael ar gymorth trwy e-bostio help@dewis.wales.</p>			<p>If you have yet to sign up, please do so. You can do this by visiting https://www.dewis.wales and entering your details. You can access support to update your information by calling 07773 486891 between 8am and 8pm daily. You can also access support by emailing help@dewis.wales.</p>	
<p>Gweithio mewn gofal Cymdeithasol: Swyddi Gofalwn Cymru - Atgofiad</p>	<p>Cyflogwyr gofal cymdeithasol, rydym eisiau helpu ymdrin â'r prinder staff y gallech fod yn ei wynebu ar hyn o bryd. Nawr yn fwy nag erioed, mae angen pobl i roi gofal a chymorth i'r rheini sydd fwyaf bregus yn ein cymunedau.</p> <p>Er mwyn eich helpu i ddod o hyd i'r bobl iawn i lenwi eich swyddi gwag a chefnogi eich busnes, rydym yn creu porthol swyddi a fydd yn rhestru swyddi gofal cymdeithasol presennol yng Nghymru.</p> <p>Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i chi gyhoeddi eich swyddi gwag ar Twitter o'ch sianeli chi, gan gynnwys y manylion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teitl y swydd • Awdurdod lleol (os yw'r rôl yn cwmpasu mwy nag un awdurdod, rhestrwch nhw) • Disgrifiad byr o'r rôl • Rhaid iddo gynnwys hashnod: #SwyddiGofalwnCymru 	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru – Gweithio mewn gofal Cymdeithasol: Swyddi Gofalwn Cymru</p>	<p>Working in Social Care: WeCare Wales Jobs – Reminder</p>	<p>Social care employers, we want to help address the staff shortages you might be facing right now. Now more than ever, people are needed to provide care and support to those who are vulnerable in our communities.</p> <p>To help you find the right people to fill your vacancies and support your business, we've created a jobs portal that will list current social care jobs in Wales.</p> <p>To make this happen, we need you to post your job vacancies on Twitter from your channels, including the following details:</p> <ul style="list-style-type: none"> • job title • local authority (if the role covers more than one authority, include each) • brief description of the role <p>must include hashtag: WeCareWalesJobs</p>	



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

<p>AGC Coronafeirws (COVID-19): Cwestiynau Cyffredin</p>	<p>Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn diweddarau ei thudalen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer darparwyr gofal a staff ledled Cymru yn barhaus.</p> <p>Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r coronafeirws (COVID-19) nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ar y dudalen Cwestiynau Cyffredin, defnyddiwch y ffurflen ar y dudalen 'Cysylltwch â ni' er mwyn cysylltu ag AGC.</p>	<p>https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin</p> <p>https://arolygiaethgofal.cymru/cysylltwch-a-ni/cysylltwch-a-ni</p>	<p>CIW Coronavirus (COVID-19): Frequently Asked Questions (FAQs)</p>	<p>Care Inspectorate Wales (CIW) are continually updating their FAQs page for care providers and staff across Wales.</p> <p>If you have any questions regarding coronavirus (COVID-19) not currently included on the FAQ's page please use the form on the contact page to get in touch with CIW.</p>	<p>https://careinspectorate.wales/coronavirus-covid-19-frequently-asked-questions-faqs</p> <p>https://careinspectorate.wales/contact-us/get-in-touch</p>
---	---	---	---	---	---